YMDDIRIEDWCH YN NUW POB DIDDANWCH

Nodyn i'r siaradwr:
Diddanwch a gobaith yr *Ysgrythurau* yn unig ydi testun yr anerchiad. Byddwch yn gadarnhaol ac yn adeiladol. Dangoswch sut bydd ymddiried yn Jehofah, yng ngrym ei Air, yn ei ysbryd, ac yn narpariaeth ryfeddol holl-gynhwysol y pridwerth, yn ein cysuro ac yn ein hannog i sefyll yn gadarn yn y ffydd yn ystod y dyddiau diwethaf enbyd hyn

MAE JEHOFAH YN DARPARU'R CYSUR SYDD EI ANGEN I'R SAWL SY'N YMDDIRIED YNDDO (7 mun.)

Mae angen diddanwch a chysur ar bawb ymhlith bodau dynol (Rhuf 8:22)

Mae llawer o broblemau'n dod i ran teulu dyn yn ystod bywyd, ac mae amherffeithrwydd yn arwain at farwolaeth (Job 14:1, 2; Salm 90:10)

Byddwn yn ddiolchgar mai Duw pob cysur ydi Jehofah!

Mae ei Air ysgrifenedig yn rhoi cysur a gobaith (Rhuf 15:4)

Fe anfonodd Iesu, gyda neges o anogaeth, yn Gysurwr (Luc 4:18, 19)

'Roedd Iesu'n medru sicrhau'r rhai oedd yn galaru y bydden' nhw'n cael eu cysuro (Math 5:4; *it*-1 1033)

Medr pawb sy'n llwythog ddod at Iesu am esmwythdra a gorffwystra (Math 11:28-30)

CYN BO HIR DAW ESMWYTHÂD PARHAOL (4 mun.)

Yn ôl proffwydoliaethau'r Beibl, fe fydd Duw, yn fuan, yn dod â salwch, tristwch, a marwolaeth i ben ar y blaned hon (Dat 21:3, 4)

Fydd neb yn mynd yn hen, nac yn colli anwyliaid, nac yn diodde' iselder ysbryd nac anobaith, nac yn cael profiadau trist mewn bywyd

Fe ddaw'r ddaear yn baradwys, yn union fel y bwriadodd Duw yn wreiddiol (Eseia 45:18; 55:11)

Fe fydd Jehofah Dduw yn gwneud pob peth yn newydd (Dat 21:5)

Mi fydd y pethau yma'n digwydd gyda hyn, ond yn y cyfamser mae'n rhaid i ni gadw'n ysbrydol gadarn drwy roi'n hymddiried a'n ffydd yn llwyr yn Jehofah

DYMA'R ADEG I WNEUD YN AMLWG EIN BOD YN YMDDIRIED YN JEHOFAH (15 mun.)

Mae mwy o angen 'nawr nag erioed i fodau dynol ddangos eu bod yn caru Duw ac yn ymddiried ynddo

Mae astudio Gair Duw yn dweud wrthym ein bod yn byw yn rhan ola'r dyddiau diwethaf (2Tim 3:1-5)

Mae Duw pob diddanwch wedi sicrhau darpariaethau i'n helpu ni i ymdopi a dyfalbarhau yn ystod y cyfnod anodd hwn (2Cor 1:3)

I dderbyn diddanwch rhaid inni ymddiried yn addewidion Jehofah a defnyddio'i ddarpariaethau

Beth bynnag ydi amgylchiadau ein bywyd, mae Duw yn ein gwahodd i ymddiried ynddo ac yn y drefn cysuro ac achub sydd ganddo trwy Grist (2Thes 2:16, 17)

Mae'n angenrheidiol inni fod â ffydd yn y pridwerth

Os ydym yn edifarhau mae gwerth y gwaed a dywalltodd Iesu yn ein gorchuddio (1Ioan 2:1, 2)

Mae'r gydwybod dda 'rydym yn ei hennill 'nawr oherwydd hyn, a'r berthynas dda gyda Duw, yn ein helpu ni i ymgynnal (1Ioan 4:14-16)

Dyma sail goroesi Armagedon a derbyn bywyd ym myd newydd Duw (Dat 7:14)

Wrth ymddiried yn Jehofah, mae addewidion a phroffwydoliaethau'r Beibl yn rhoi cysur inni

Cawn nerth i ddyfalbarhau wrth edrych ymlaen yn hyderus at yr atgyfodiad a datblygiadau eraill fydd yn dod â gollyngdod mawr i fodau dynol ffyddlon (Salm 37:9-11; Diar 2:21, 22; Actau 24:15)

Medrwn ddangos ein bod yn ymddiried yn Jehofah drwy weddïo'n daer arno, a gofyn am ei ysbryd (Luc 11: 9-13)

Dyna gysur a chymorth mawr ydi derbyn ateb i'n gweddïau am help yn ôl ei ewyllys (1Ioan 3:22; 5:14)

Yn hytrach na dileu prawf, fe all Duw roi'r nerth—y gallu tra rhagorol—inni, fel medrwn ni ymgynnal (2Cor 4:7-10; *w*92 2/1 32)

Beth bynnag y bydd Duw yn ei ganiatáu, medrwn ymdopi drwy ymddiried ynddo ef, gan wybod y bydd 'na, yn y dyfodol agos, ddiwedd ar bopeth sy'n ddrwg ac yn peri poen (Eseia 65:17)

Mae esiamplau gweision ffyddlon heddiw a'r rhai gynt yn ein gwneud ni'n ddewr i fwrw ymlaen (*w*93 9/15 11-14)

'Rydym yn cael ein hatgoffa'n gyson o'r pethau hyn gan gyfundrefn weladwy Jehofah sy'n darparu cymanfaoedd a chynulliadau, ymweliadau goruchwylwyr teithiol, a henuriaid wedi'u penodi gan yr ysbryd (2Pedr 3:1, 2)

Mor llesol ydi'r cysur a'r esmwythdra gawn drwy'r darpariaethau hyn!

EFELYCHWCH JEHOFAH DRWY GYSURO ERAILL (14 mun.)

Wedi inni brofi a gwerthfawrogi diddanwch Duw 'rydym yn barod i gysuro eraill, gan esbonio'n gobaith iddyn' nhw (2Cor 1:4; 1Pedr 3:15)

Wrth fynd â newyddion da iachawdwriaeth i eraill, daw lles i ninnau hefyd (Actau 15:3; 1Cor 9:23; *w*97 10/15 19; adroddwch yn fyr brofiad neu ddatganiad yn y llenyddiaeth sy'n dangos sut daeth hapusrwydd i ran cyhoeddwr y Deyrnas)

Cysurwch y rhai sy' wedi colli anwyliaid drwy farw, gan egluro'r hyn mae Gair Duw yn ei ddweud am achos

marwolaeth; rhannwch obaith yr atgyfodiad gyda nhw (Ioan 5:28, 29; Rhuf 5:12; 6:23; *w*00 7/15 10-20)

Cysurwch y rhai sy'n sâl, y rhai sy'n isel eu hysbryd, y rhai sy'n unig, a'r digalon (1Thes 5:14; *w*99 5/15 25-8; *w*94 9/15 21-4)

Sicrhewch nhw fod Jehofah yn dosturiol a thrugarog a'i fod e'n cofio eu gwasanaeth ffyddlon (Heb 6:10)

Mae'n bosib' edrych ar eu hamgylchiadau neu eu cyflwr nhw yn brawf ar eu ffydd a'u dyfalbarhad

Mae'n gysur gwybod na fydd Jehofah yn caniatáu iddyn' nhw gael eu profi y tu hwnt i'w gallu (1Cor 10:13)

Gwnewch yn fawr o gyhoeddiadau'r Gymdeithas—yn daflenni, yn llyfrynnau, a phenodau arbennig yn y llyfr *Gwybodaeth*

Gwnewch yn eglur nad Jehofah sy'n achosi dioddefaint; mae e'n gwybod mai llwch ydi'n cyfansoddiad ni, oc oherwydd hynny 'dyw e ddim yn gofyn rhagor gennym na'r hyn medrwn ei roi (Salm 103:10-14)

Mae Duw yn ein gwahodd i fwrw'n baich arno fe. Dangoswch sut. (Salm 55:22)

Ymddiriedwch yn llwyr yn Jehofah, gan wybod y gall e ein helpu mewn amgylchiadau fydd efallai'n parhau nes daw Armagedon (*w*00 1/15 24; darllen ac egluro Diarhebion 3:5, 6)

Wrth gysuro eraill daw llawenydd i'n rhan (Diar 19:17; Actau 20:35)

JEHOFAH YN CYSURO'R RHAI SY'N YMDDIRIED YNDDO (5 mun.)

Mae 'na ddigonedd o dystiolaeth fod Jehofah yn ein caru ni (Ioan 3:16)

Iesu Grist fydd yn cyflawni holl addewidion Duw

Peidiwch byth ag anghofio gwerth mawr a grym yr aberth pridwerthol

Gwnewch eich gorau i feithrin a chadw perthynas bersonol agos gyda Jehofah drwy ddangos fod gennych ffydd yn yr aberth, drwy ddarllen ei Air, a thrwy ddal ati i weddïo

Efelychwch Jehofah a'i Fab wrth wneud eich gorau i gysuro eraill gyda'r gobaith Ysgrythurol am Deyrnas Dduw

Cofiwch fod 'na frodyr a chwiorydd ym mhob rhan o'r byd hefyd yn ceisio ymdopi â phroblemau, gan ymddiried yn Nuw

Mi fedrwn ni ymgynnal, dim ond inni lwyr ymddiried yn Jehofah (1Pedr 5:6-10)

Peidiwch ag ildio; cadwch eich golwg ar y gobaith o'ch blaen, a llawenhau ynddo (Actau 2:25, 26; 2Cor 4: 16-18)

Ymddiriedwch yn Jehofah â'ch holl galon; mae'n sicr y cewch brofi ei ofal cariadus drosoch

(Glynwch yn glós at y deunydd sydd wedi'i amlinellu, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)